Taflen Ffeithiau 5 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Awst 2016

# Meini Prawf Cymhwyster: Cael y gwasanaethau rydych eu hangen

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gofal Cymdeithasol Oedolion – yn cefnogi mynediad teg i ofal a chymorth o safon uchel i'r bobl sydd fwyaf angen help. Byddwn yn trafod eich sefyllfa unigol chi gyda chi i weld os ydych chi'n gymwys i gael ymateb gennym. Gelwir y sgwrs hon yn asesiad.

I sicrhau bod ein hymateb i chi yn deg a chyfiawn, rydym yn defnyddio'r hyn a elwir yn 'feini prawf cymhwyster'. Mae ein meini prawf cymhwyster yn seiliedig ar eich sefyllfa chi, pa adnoddau sydd ar gael i chi, beth sy'n bwysig i chi a sut medrwch gyflawni'r pethau sy'n bwysig i chi. Mae'r meini prawf cymhwyster yn berthnasol os ydych yn oedolyn sy'n gofyn am gymorth neu'n gofalu am oedolyn sydd angen cymorth.

Ein nod yw bod yn deg ac agored ynglŷn â sut rydym yn cymryd penderfyniadau, gan gael ein harwain gan ganllawiau a rheoliadau Llywodraeth Cymru o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Meini Prawf Cymhwyster Llywodraeth Cymru ar gyfer Oedolion

### Meini Prawf Cymhwyster Llywodraeth Cymru ar gyfer Oedolion

Rheoliadau Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r prawf y mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei ddefnyddio i benderfynu os oes gennych hawl i gael diwallu eich canlyniadau personol gennym ni ai peidio.

- Amod 1 : mae eich canlyniad personol yn ymwneud ag oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, amgylchiadau tebyg eraill
- Amod 2 : mae eich canlyniad personol yn ymwneud â'r gallu i gyflawni tasgau hunan-ofal neu o gwmpas y tŷ, cyfathrebu, amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod, cymryd rhan mewn gwaith neu ddysgu, datblygu perthnasau cymdeithasol a chymunedol neu ofalu am blentyn.
- Amod 3 : nid oes modd cyflawni'r canlyniad gyda chymorth teulu, cyfeillion, y gymuned neu eich adnoddau chi eich hun.
- Amod 4 : nid oes opsiwn amgen yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn darparu gofal a/neu gymorth naill ai'n uniongyrchol neu trwy gyfrwng taliad uniongyrchol.

Bydd Gofal Cymdeithasol Oedolion yn gweithio gyda chi i ganfod atebion i'r materion rydych chi wedi eu nodi fel rhai pwysig – efallai na fydd y rhain yn cael eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.
Mewn argfwng, byddwn yn cymryd camau ar frys i ddiwallu eich anghenion.

## Beth os nad wyf yn gymwys i gael ymateb gan Ofal Cymdeithasol Oedolion?

Os nad ydych yn gymwys i dderbyn gofal a chymorth gan Ofal Cymdeithasol Oedolion, medrwn eich helpu o hyd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi. Mae hyn oherwydd bod nifer o grwpiau cymunedol, mudiadau, elusennau, cwmnïau a gwasanaethau sy'n

cynnig cymorth i bobl Torfaen. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Mynediad agored i'r Gwasanaeth Prydau Bwyd Cymunedol.
- Clybiau cymdeithasol a grwpiau cinio yn eich ardal.
- Cyngor a chyfarwyddyd ar fudd-daliadau.
- Gwasanaethau galw heibio cymorth iechyd meddwl.
- Cyngor a chyfarwyddyd ar Gamdriniaeth Ddomestig.
- Rhestr o ddarparwyr cymeradwy sy'n medru cynnig gwasanaethau os dymunwch wneud trefniadau preifat.
- Grwpiau gofal a chyngor ar fudiadau sy'n cefnogi gofalwyr.

## Oes raid i mi dalu unrhyw beth?

Ni chodir tâl am asesiad nac am roi cyngor a gwybodaeth i chi.
Mae Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym bod yn rhaid i ni ofyn i chi wneud cyfraniad tuag at y gwasanaethau a ddarperir gennym os ydych yn gymwys. Mae ein taliadau yn seiliedig ar faint o arian sydd gennych a byddwn yn gwneud asesiad ariannol i weithio allan faint fydd angen i chi ei dalu. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi dewis peidio â chodi tâl ar ofalwyr am wasanaethau sy'n ymateb i ofynion y gofalwr yn unig.

## Yr hawl i apelio

Os ydych chi'n teimlo nad ydym wedi deall eich amgylchiadau, mae gennych hawl i apelio. Mae ein taflen ffeithiau *Sut i Apelio Penderfyniadau ar Wasanaethau* yn nodi sut i wneud hyn.

## Ein manylion cyswllt

Os ydych angen mwy o help, cysylltwch â ni.

**Ffôn:** 01495 762200

**Ebost:**
socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

**Ein Cyfeiriad:**
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

*Gellir cael y daflen hon mewn ieithoedd a ffurfiau eraill. Cysylltwch â ni i drefnu hyn.*